**Mae dynes o'r Rhyl a helpodd blant gweithwyr allweddol yn ystod cyfnod clo y Coronafeirws a chefnogi ffrind mewn angen wedi ei henwi yn arwres gymunedol yn y dref.**

Dywedodd Leanne Bailey, sy'n byw oddi ar Mount Road, y Rhyl, ei bod wedi ei synnu o gael ei henwebu a'i dewis ar gyfer gwobr Cyngor Tref y Rhyl.

Ei ffrind Maggie Kearsley a gynigiodd Leanne ar ôl i'r ddwy ddod yn ffrindiau yn Ysgol Babyddol Christ the Word y Rhyl. Yn ystod y cyfnod clo, roedd y ddwy wedi bod yn gweithio yn y Ganolfan Coeden Dderw i helpu plant gweithwyr allweddol a hyn, ynghyd â chyfeillgarwch Leanne, a ysgogodd Maggie i gyflwyno'r enwebiad.

Meddai Maggie: "Mae Leanne wir wedi fy helpu dros y flwyddyn ddiwethaf, Mae'n cynnig cyngor da, yn gwrando pan fyddaf angen rhywun i siarad gyda nhw a hyd yn oed yn mynd â fi i'r gwaith. Roedd Leanne yn gefnogol iawn o blant y Ganolfan Coeden Dderw ac yn gwneud i bawb wenu. Mae'n llwyr haeddu'r wobr."

Ynghyd â Leanne, mae gwaith Rachel Williamson o'r Rhyl, sy'n crosio topiau i flychau'r Post Brenhinol, hefyd wedi ei chydnabod gan y maer, y Cynghorydd Ellie Chard. Mae'r Cynghorydd Chard wedi ysgrifennu at Rachel i ddiolch iddi am ei hymdrechion creadigol ac i'w gwahodd i noson gyflwyno'r cyngor yn y dyfodol.

Meddai'r Cynghorydd Chard: "Daeth ein cwest i ganfod arwr cymunedol y Rhyl ar ddiwedd ein cystadleuaeth wyth wythnos #ArosGartre a welodd blant o bob rhan o'r dref yn cymryd  rhan mewn heriau a osodwyd gan y Cyngor Tref. O beintio lluniau i fywyd gwyllt, rhannodd y plant eu bywydau yn y cyfnod clo gyda ni, ac roeddem wedi ein synnu gan y talentau creadigol a welsom.

"Ond roeddem hefyd eisiau cydnabod arwyr fel Leanne a Rachel sydd wedi bod yn chwarae eu rhan i gadw'r dref a'r trigolion i fynd. Mae'r ddwy yn haeddu'r gydnabyddiaeth yn llwyr."

Bydd y ddwy yn cael eu gwahodd i siambr y cyngor ar gyfer dathliad arbennig unwaith y bydd y cyfyngiadau yn caniatáu.

Meddai Leanne: "Nid wyf yn meddwl mod i wneud unrhyw beth anarferol. Rwy'n ceisio gwrando ar bobl a helpu lle gallaf, ac rwy'n falch bod Maggie yn teimlo fy mod wedi gallu ei chefnogi. Weithiau mae rhywun angen rhywun i wrando arnyn nhw.

"Rwyf hefyd yn gobeithio bod pob un ohonom yn y Ganolfan Coeden Dderw wedi gwneud bywyd ychydig yn fwy normal i blant y gweithwyr allweddol yn ystod cyfnod rhyfedd iddyn nhw. Rwyf wedi synnu fy mod wedi ennill y wobr hon ac rwy'n edrych ymlaen at y seremoni."

**Diwedd**

+44 (0) 1745 889577
+44 (0) 7712 475576
rachael@gunsmokecommunications.co.uk
www.gunsmokecommunications.co.uk
@GunsmokeComms
GunsmokeCommunications